Llywodraeth Cymru
Welsh Government

27 Hydref 2021

**ATISN 15617**

Annwyl

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 22 Hydref 2021. Roeddech yn gofyn am:-

Ddosraniad o'r buddsoddiad cyllid cyfalaf o'r rhaglenni isod, rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwyieithog / gyda ffrwd Gymraeg a rhai cyfrwng Saesneg, ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru:

(i) Band B, Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif

(ii) Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod

(iii) Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg

Gofynnwn i chi fanylu ar yr isod mewn perthynas â phob un o'r rhaglenni cyllid dan sylw:

* Cyfanswm y gwariant a glustnodwyd fesul Awdurdod Lleol
* Rhestr o'r holl brosiectau ym mhob Awdurdod Lleol y clustnodwyd cyllid ar eu cyfer

* Y cyfanswm a glustnodwyd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg
* Y ganran a glustnodwyd ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg

* Y cyfanswm a glustnodwyd ar gyfer ysgolion dwyieithog / ffrwd Gymraeg
* Y ganran a glustnodwyd ar gyfer ysgolion dwyieithog / ffrwd Gymraeg

* Y cyfanswm a glustnodwyd ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg
* Y ganran a glustnodwyd ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg

* Statws y prosiectau hynny, h.y. wedi eu cwblhau, yn y broses o gael eu cwblhau, heb ddechrau eto.

* Gofynnwn ichi fanylu ynghylch beth yw'r broses o bennu sut y caiff arian ei glustnodi a chadarnhau os yw asesiad effaith iaith yn cael ei gynnal wrth weinyddu'r drefn honno.

Byddwch yn derbyn ymateb erbyn 19 Tachwedd 2021. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cais hwn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi yn y cyfeiriad isod. Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod uchod mewn unrhyw ohebiaeth yn y dyfodol.

**Sylwer: mae Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau na welwyd mo'u tebyg oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19). O ganlyniad, mae adnoddau, o ran cyllid a phobl, yn cael eu dargyfeirio oddi wrth lawer o'n gweithgareddau arferol i ddelio â'r pandemig. Mae'n debygol iawn y bydd hyn yn effeithio ar ein gallu i gydymffurfio â'r gofynion arferol mewn perthynas â gwaith hawl i wybodaeth, ac o ganlyniad efallai y byddwch yn gweld oedi o ran eich cais am hawl i wybodaeth yn ystod y pandemig. Rydym yn ddiolchgar ichi am ddeall y sefyllfa.**

**Dyma ddolen at dudalen blog ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth lle gwelir erthygl o'r enw "“FOI and the coronavirus: a measured approach”.**

https://ico.org.uk/about-the-ico/news-and-events/icos-blog-on-its-information-rights-work/

Mae eich cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi – eich enw a'ch cyfeiriad er enghraifft. Llywodraeth Cymru fydd y prosesydd data ar gyfer yr wybodaeth hon ac, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, bydd yn cael ei phrosesu er mwyn inni allu cyflawni ein gorchwyl gyhoeddus a bodloni ein hymrwymiadau cyfreithiol o dan y Ddeddf i roi ateb ichi. Yr unig ddefnydd a wnawn o'r wybodaeth bersonol hon fydd yr hyn sy'n ofynnol er mwyn ymdrin â'ch cais ac unrhyw faterion sy'n codi yn ei sgil. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol ac unrhyw wybodaeth arall yn ymwneud â'ch cais am dair blynedd ar ôl y dyddiad y caiff eich cais ei gau'n derfynol. Wedyn byddwn yn cael gwared ar eich gwybodaeth bersonol mewn modd diogel.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael gwybod pa ddata personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru a chael gafael arno
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i ofyn am i'ch data gael eu dileu
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD, CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer / Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk

Rhestrir unrhyw wybodaeth a ryddheir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yng Nghofnod Datgeliadau Llywodraeth Cymru (yn https://gov.wales/about/open-government/freedom-of-information/responses/?skip=1&lang=cy).

Yn gywir